# Tribiwnlys y Gymraeg
# Adroddiad Blynyddol
# 2023 – 2024


Tribiwnlys y Gymraeg
Welsh Language Tribunal

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 1 |
| **Adran 1** | Amdanom ni | 2 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Datblygiad | 7 |
| **Adran 3** | Blaenoriaethau Busnes | 11 |
| **Adran 4** | Gwariant | 12 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50121, ISBN digidol 978-1-83625-213-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair



Mae hi wedi bod yn flwyddyn diddorol iawn o fewn y Tribiwnlys eto eleni.

Bu'r flwyddyn yn un gymharol dawel o ran nifer achosion ond fe fu dipyn o waith yn y cefndir yn trin a thrafod y sefyllfa ynglŷn a datganoli Tribiwnlysoedd Cymru ac adroddiad Comisiwn y Gyfraith. Roedd yr achosion a gafodd eu clywed yn rhai pwysig iawn, yn trin a thrafod materion fydd yn cael effaith bellgyrhaeddol ar sut y mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried a'i defnyddio gan sefydliadau.

Diolch i bawb am eu gwaith i sicrhau bod hyn yn llwyddiant, yn enwedig staff gweinyddu'r Tribiwnlys. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'm cyd-aelodau o'r Tribiwnlys, ac i'r staff gweinyddol sydd wedi cynnal ein gwaith, am eu cyfraniad ardderchog. Maent yn effeithiol iawn ac mae'r Tribiwnlys yn parhau gyda'r datblygiadau diweddar fel gwrandawiadau rhithiol. Mae'n hanfodol mewn rhai achosion cael gwrandawiad wyneb yn wyneb, ac fe fydd gwrandawiadau rhithiol ac wyneb wrth wyneb ar gael eleni eto.

Dyma fy mlwyddyn olaf fel Llywydd wrth imi ymddeol o'r swydd yn ystod yr Haf, ac rwy'n dymuno pob bendith i'r Llywydd newydd yn y swydd am y dyfodol.

**Iwan Jenkins**
Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg

# Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon:

- Cefndir
- Swyddogaethau'r Tribiwnlys
- Rheolau'r Tribiwnlys
- Cyfarwyddiadau Ymarfer
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Hyfforddiant
- Cysylltu â'r Tribiwnlys
- Hygyrchedd y Tribiwnlys

## Cefndir

Mae Tribiwnlys y Gymraeg yn dribiwnlys statudol a sefydlwyd o dan adran 120 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'). Swyddogaeth y Tribiwnlys yw penderfynu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Tribiwnlys yn un o'r saith "Tribiwnlys Cymreig" a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 ac felly'n dod o dan arweinyddiaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Gellir darllen adroddiad blynyddol olaf Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Syr Wyn Williams, yn www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-06/pedwerydd-adroddiad-blynyddol-tribiwnlysoedd-cymru-2021-2022.pdf.

## Swyddogaethau'r Tribiwnlys

Mae'r Mesur yn galluogi'r Tribiwnlys i wrando ar y materion canlynol:

1. Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd o ran gosod Safonau ar gyrff a swyddogion sy'n arfer swyddogaethau neu'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
2. Apeliadau, gan rywun y gwnaed cwyn yn ei erbyn, yn erbyn dyfarniadau'r Comisiynydd, ar ddiwedd ymchwiliad i'r gŵyn, ei fod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad Safon.
3. Apeliadau gan achwynydd yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd, ar ddiwedd ymchwiliad nad oedd person y gwnaed gŵyn yn ei erbyn, wedi methu â chydymffurfio â safon mewn gwirionedd.
4. Apeliadau yn erbyn camau gorfodi sy'n cael eu cymryd gan y Comisiynydd.
5. Apeliadau yn erbyn hysbysiadau tystiolaeth a roddir gan y Comisiynydd yn ystod ymchwiliad.
6. Adolygiadau o benderfyniadau gan y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn (neu i derfynu ymchwiliad heb ddod i benderfyniad).

## Rheolau'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu'n unol â'i reolau gweithdrefnol – Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015. Pwrpas y Rheolau hyn yw sicrhau bod yr holl achosion sy'n dod o flaen y Tribiwnlys yn cael eu trin yn deg, yn gyson ac yn brydlon. Maent yn sicrhau y bydd y rhai sy'n dod ag achos o flaen y Tribiwnlys yn deall yn union pa gamau sy'n rhaid iddynt eu cymryd er mwyn i ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol fedru cael eu cyflwyno'n effeithiol i'r Tribiwnlys. Maent hefyd yn sicrhau y bydd pob parti i'r achos yn deall dadleuon partïon eraill ac yn medru ymateb iddynt.

Yn ôl adran 123 o'r Mesur, mae dyletswydd ar y Llywydd i wneud Rheolau Tribiwnlys ar yr arferion a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn y Tribiwnlys.

Mae Rheolau'r Tribiwnlys yn amlinellu'r canlynol:

- Rheolau cyffredin – sy'n ymdrin â rhai egwyddorion sylfaenol cyffredin ac yn diffinio'r termau arbennig sy'n cael eu defnyddio yn y Rheolau.
- Darpariaethau sy'n ymwneud â dewis yr Aelodau o'r Tribiwnlys a fydd yn gwrando achosion unigol.
- Sut i gychwyn cais i'r Tribiwnlys.
- Y camau ymarferol y bydd yn rhaid eu cymryd er mwyn paratoi achos ar gyfer gwrandawiad.
- Y pwerau a fydd gan y Tribiwnlys i reoli achosion, gan gynnwys y cyfarwyddiadau y bydd y Tribiwnlys yn gallu eu rhoi i bartïon ar ba gamau y bydd rhaid iddynt eu cymryd cyn y gwrandawiad.
- Y drefn ar gyfer gwrandawiadau a phenderfyniadau ffurfiol y Tribiwnlys.
- Beth sy'n digwydd ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer adolygu penderfyniadau'r Tribiwnlys neu apelio i'r Uchel Lys.
- Darpariaethau amrywiol eraill, gan gynnwys rheolau gweinyddol ar gofnodi penderfyniadau, cyflwyno dogfennau a mesur terfynau amser.

## Cyfarwyddiadau Ymarfer

Awdurdodir y Llywydd, o dan adran 124 o'r Mesur a Rheol 4 o'r Rheolau, i roi Cyfarwyddiadau Ymarfer er mwyn rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli a gweithredu'r Rheolau.

### Cyfarwyddyd Ymarfer 1 – Cychwyn achos

Mae Rheol 10 o'r Rheolau yn darparu bod yn rhaid i gais i'r Tribiwnlys gael ei wneud trwy gyflwyno i'r Tribiwnlys ddogfen ysgrifenedig (hysbysiad cais). Mae Rheol 12 yn rhagnodi'r wybodaeth sydd rhaid i'w cynnwys mewn, a chyda, hysbysiad cais.

Pwrpas y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yw cyhoeddi ffurflen a fydd, trwy ei defnyddio gan geisydd, yn cynorthwyo'r ceisydd (neu gynrychiolydd y ceisydd) i gydymffurfio â gofynion Rheol 12. Dylid defnyddio'r ffurflen honno ar gyfer cyflwyno hysbysiad cais.

Serch hynny, nid yw'n ofyniad cyfreithiol i ddefnyddio'r ffurflen. Gall ceisydd gyflenwi'r wybodaeth sy'n cael ei rhagnodi gan Reol 12 mewn ffurf arall. Ond bydd defnyddio'r ffurflen yn:

- sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei rhoi;
- cynorthwyo'r Tribiwnlys i ystyried y wybodaeth honno yn y dull mwyaf cyson ac effeithiol ag sy'n bosibl.

### Cyfarwyddyd Ymarfer 2 – Y Defnydd o Ieithoedd y Tribiwnlys

Mae Rheol 6 o’r Rheolau yn darparu:

- mai ieithoedd y Tribiwnlys yw’r Gymraeg a’r Saesneg;
- bod gan bob parti neu dyst yr hawl i ddefnyddio’r naill iaith neu’r llall yn nhrafodion y Tribiwnlys.

Pwrpas y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yw rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli’r Rheolau a sut i roi effaith i weithdrefnau’r Tribiwnlys, mewn modd sy’n unol â Rheol 6.

Yn unol â Rheol 4(4), mae cynnwys y Cyfarwyddyd hwn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddiadau sy’n cael eu rhoi gan y Tribiwnlys mewn perthynas ag achos penodol.

Mae’r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn ymwneud, yn unig, â chyfathrebiadau sy’n rhan o drafodion y Tribiwnlys mewn perthynas ag achos penodol ac sy’n cael eu rheoli gan ddarpariaethau’r Rheolau.

### Cyfarwyddyd Ymarfer 3 – Arfer swyddogaethau’r Tribiwnlys

Mae’r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn disgrifio’r trefniadau ar gyfer pennu pwy fydd, fel arfer, yn gwneud penderfyniadau yn enw’r Tribiwnlys. Mae’n darparu, er enghraifft, mai Llywydd y Tribiwnlys (neu aelod arall o’r Tribiwnlys sydd â chymhwyster cyfreithiol) fydd yn delio gyda chwestiynau paratoadol, cyn y bydd achos yn cyrraedd gwrandawiad, tra bydd y gwrandawiad, a’r penderfyniad terfynol ar yr achos, yn nwylo panel o dri aelod o’r Tribiwnlys.

### Cyfarwyddyd Ymarfer 4 – Ceisiadau i’r Tribiwnlys i ddileu hysbysiad tystiolaeth

Mae’r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn cymhwyso gweithdrefnau’r Tribiwnlys i ddosbarth penodol o apeliadau a all godi allan o ymchwiliad gan y Comisiynydd i gwŷn, sef apeliadau i’r Tribiwnlys yn erbyn hysbysiadau tystiolaeth a roddwyd gan y Comisiynydd o dan baragraff 5 o Atodlen 10 i’r Mesur.

## Aelodau’r Tribiwnlys

Gweinidogion Cymru sy’n gyfrifol am benodi ac ailbenodi’r Llywydd, Aelodau o’r Tribiwnlys sy’n gyfreithiol gymwys ac Aelodau lleyg. Penodwyd yr Aelodau ar ôl i’r swyddi gwag gael eu hysbysebu ac ar ôl cyfweliad cystadleuol gan banel gafodd ei gynnull yn Lywodraeth Cymru. Penodwyd y Llywydd ac Aelodau eraill y Tribiwnlys am dymor o 5 mlynedd.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Y Llywydd sydd â chyfrifoldeb barnwrol dros y Tribiwnlys a’i haelodau. |
| **Aelodau cyfreithiol** | Cyfreithwyr (Bargyfreithwyr neu Dwrneiod) yw’r Aelodau cyfreithiol ac maent yn gyfrifol am lywyddu ar wrandawiadau ac am arfer swyddogaethau mewn perthynas â chamau rhagarweiniol – e.e. rhoi cyfarwyddiadau ynglŷn â’r dystiolaeth a fydd yn cael ei chyflwyno gan bartïon. |
| **Aelodau lleyg** | Mae gan Aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy’n berthnasol i waith y tribiwnlys. Maent yn chwarae rhan lawn, gyda llais cyfartal i leisiau Aelodau eraill (gan gynnwys Aelodau Cyfreithiol) ym mhenderfyniadau’r Tribiwnlys. |

**Ysgrifenyddiaeth**

Mae gweinyddiaeth y Tribiwnlys o ddydd i ddydd yn cael ei dirprwyo i ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys, sy'n ymdrin â'r gwaith rhagarweiniol a'r gwaith o brosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r Aelod cyfreithiol a fydd yn cadeirio gwrandawiad penodol ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol a gyfyd yn ystod cyfnodau rhagarweiniol achosion cyn y gwrandawiad, ac yn anfon unrhyw ddyfarniadau a chyfarwyddiadau at y partïon yn ysgrifenedig. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer Aelodau a defnyddwyr y Tribiwnlys. Mae'r weinyddiaeth yn cael ei darparu, o dan adran 127 o'r Mesur, gan Lywodraeth Cymru.

## Penodiadau ac ailbenodiadau

Nid oes unrhyw benodiadau neu ailbenodiadau wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn yma.

**Llywydd**
Iwan Jenkins

**Cyfreithiol**
Rhodri Williams CB

**Lleyg**
Glenda Jones
Eifion Jones
Isata Kanneh
Sara Peacock

## Hyfforddiant

Mae'n ddyletswydd statudol ar Lywydd Tribiwnlys y Gymraeg, o dan adran 133 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i gynnal trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant aelodau'r Tribiwnlys.

Cynhaliwyd Hyfforddiant Blynyddol 2023-2024 ym mis Tachwedd 2023.

Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddi hyn ar gyfer holl aelodau a staff y Tribiwnlys i fynd dros brosesau'r Tribiwnlys gyda chais ffug, a thrafod sut i ymdrin â materion yn ddigidol yn ogystal â mewn person.

## Cysylltu â'r Tribiwnlys

Dyma fanylion cyswllt Tribiwnlys y Gymraeg:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad: | Tribiwnlys y Gymraeg<br>Tŷ Dderwen<br>Parc Cleppa<br>Casnewydd<br>NP10 8BD |
| Llinell Gymorth y Tribiwnlys: | 03000 256702 |
| E-bost y Tribiwnlys: | tyg@llyw.cymru |
| Gwefan y Tribiwnlys: | www.tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru |

## Hygyrchedd y Tribiwnlys

Mae croeso i chi gyfathrebu gyda'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu Saesneg. Mae Rheol 6 o'r Rheolau yn darparu:

- mai ieithoedd y Tribiwnlys yw'r Gymraeg a'r Saesneg;
- bod gan bob parti neu dyst yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall yn nhrafodion y Tribiwnlys.

Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 2 yn rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli a gweithredu'r Rheolau mewn modd sy'n unol â Rheol 6.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi manylion unrhyw anghenion ychwanegol sydd gennych, neu eich cynrychiolydd, pan fyddwch yn anfon eich hysbysiad cais atom. Er enghraifft, os bydd angen arwyddwr neu cyfieithydd arnoch yn y gwrandawiad, neu os bydd angen gwneud unrhyw drefniadau ychwanegol, byddwn yn sicrhau bod y trefniadau ychwanegol angenrheidiol wedi eu darparu ar gyfer y gwrandawiad.

# Adran 2 – Perfformiad a Datblygiad

Yn yr adran hon, trafodir:

- Niferoedd ac ystadegau
- Adolygiadau mewnol ac apeliadau i'r Uchel Lys
- Cwynion
- Effeithiolrwydd ein gwasanaeth

## Niferoedd ac ystadegau

Mae'r Mesur yn galluogi unigolyn neu sefydliad i wneud apêl i'r Tribiwnlys ar y materion canlynol:

- Adran 58 – Dyfarniad gan y Comisiynydd nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon (neu gydymffurfio â safon mewn modd penodol) yn afresymol neu'n anghymesur.
- Adran 95(2) – Dyfarniad gan y Comisiynydd fod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofyniad safon.
- Atodlen 10, paragraffau 9 a 10 – apeliadau yn erbyn hysbysiadau tystiolaeth a roddir gan y Comisiynydd yn ystod ymchwiliad.
- Adran 95(4) – Camau gorfodi y mae'r Comisiynydd wedi penderfynu eu cymryd.
- Adran 99(2) – Dyfarniad gan y Comisiynydd na fu methiant i gydymffurfio â safon.
- Adran 103 – Penderfyniad gan y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn (neu i derfynu ymchwiliad).

### Ceisiadau

Yn ystod 2023-24 derbyniwyd 4 o geisiadau newydd, roedd 1 cais wedi cael ei drosglwyddo o 2022-23 ac mae 1 cais wedi trosglwyddo i 2024-2025.

| Math o gais | Nifer a dderbyniwyd yn 2023-24 (4) | Trosglwyddwyd o 2022-23 (1) | Trosglwyddwyd i 2024-25 (1) | Caniatawyd | Gwrthodwyd | Dileu'r cais |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adran 58 | - | - | | - | - | - |
| Adran 95(2) | | 1* | | | - | - |
| Adran 95(4) | | 1* | | | - | - |
| Adran 99(2) | 2 | - | 1 | 2 | - | - |
| Adran 103 | 2 | | | 1 | 1 | |
| **Cyfanswm** | **4** | **1** | **1** | **3** | **1** | **0** |

*roedd y cais yma wedi nodi adran 95(2) ac 95(4) mewn un cais

## Natur yr achosion a gyflwynwyd mewn gwrandawiad i'r Tribiwnlys yn ystod 2023-24 (2 achos):

| Natur yr achos | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Apêl yn erbyn dyfarniad gan y Comisiynydd fod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofyniad safon (Adran 95(2) o'r Mesur) | 1* |
| Apêl yn erbyn dyfarniad gan y Comisiynydd fod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofyniad safon (Adran 95(4) o'r Mesur) | 1* |
| Apêl yn erbyn dyfarniad gan y Comisiynydd na fu methiant i gydymffurfio â safon (Adran 99(2) o'r mesur) | 1 |
| Ceisiadau am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn (adran 103 o'r Mesur) | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** |

*roedd y cais yma wedi nodi adran 95(2) ac 95(4) mewn un cais

## Sut y datryswyd achosion (achosion a dderbyniwyd yn 2023-24)

| Math o apêl | 2023-2024 |
|---|---|
| Dileu'r cais | 1 |
| Gwrthodwyd caniatâd i wneud cais (achosion o dan adran 103) | 1 |
| Gwrthodwyd yr apêl | 1 |
| Caniatawyd yr apêl | |
| Trosglwyddwyd i 2023-24 | 1 |
| **Cyfanswm** | **4** |

| Yr Amser Rhwng Derbyn Cais a Datrysiad | |
|---|---|
| Nifer o ddyddiau gwaith rhwng derbyn y cais a'r datrysiad, ar gyfartaledd | Modd o ddatrys y cais |
| 29 diwrnod | Gwrthodwyd caniatâd i wneud y cais |
| 13 diwrnod | Rhoddwyd caniatâd i wneud cais |
| 43 diwrnod | Caniatâd i ddileu'r cais (ar ôl i ganiatâd i wneud cais o dan adran 103 gael ei roi yn wreiddiol) |
| 29 diwrnod | Gwrthodwyd caniatâd i wneud cais o dan adran 103 (gan gynnwys cynnal adolygiad o'r penderfyniad i wrthod caniatâd i wneud y cais) |
| – | Gwrthodwyd caniatâd i estyn y cyfnod o 28 diwrnod am wneud cais o dan adran 103 (gan gynnwys adolygiad o'r penderfyniad i wrthod ymestyn y cyfnod) |
| – | Caniatáu'r cais i ddiddymu penderfyniad y Comisiynydd i beidio ymchwilio (heb wrandawiad ac ar y papurau yn unig) – adran 103 |
| 80 diwrnod | Nifer o ddyddiau gwaith rhwng derbyn cais a'r datrysiad, ar gyfartaledd |

## Gwrandawiadau

Yn ystod 2023-2024 cynhaliodd y Tribiwnlys:

- 2 wrandawiad panel.

## Adolygiadau mewnol ac apeliadau i'r Uchel Lys

### Adolygiad mewnol o benderfyniad y Tribiwnlys

Caiff parti wneud cais i'r Tribiwnlys i adolygu ei benderfyniad ar y seiliau:

a) bod y penderfyniad wedi ei wneud yn anghywir oherwydd gwall pwysig ar ran gweinyddiaeth y Tribiwnlys;

b) bod gan barti a oedd â hawl i gael ei glywed yn y gwrandawiad, ond a fethodd ag ymddangos neu gael ei gynrychioli, reswm da a digonol dros beidio ag ymddangos, neu

c) bod gwall amlwg a phwysig yn y penderfyniad.

Rhaid i gais am adolygu penderfyniad y Tribiwnlys gael ei wneud yn ysgrifenedig gan ddatgan y seiliau, yn ddim hwyrach nag 28 diwrnod ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad at y partïon.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chafwyd unrhyw geisiadau am adolygiad mewnol o benderfyniad.

### Apeliadau i’r Uchel Lys

Caiff parti, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu’r Uchel Lys, apelio i’r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy’n deillio o benderfyniad y Tribiwnlys.

Rhaid i ni dderbyn eich cais am ganiatâd i apelio i’r Uchel Lys o fewn 28 diwrnod calendr i’r ddyddiad y cawsoch eich hysbysu o benderfyniad y Tribiwnlys. Mae’n fater i unrhyw berson sy’n ystyried apêl i gymryd cyngor cyfreithiol eu hunain.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chafodd y Tribiwnlys geisiadau am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys i’r Uchel Lys.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cafodd y Tribiwnlys un cais am apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys.

## Cwynion

Cafodd y Tribiwnlys un cwyn yn ystod cyfnod yr adroddiad oedd yn ymwneud â gwefan y Tribiwnlys.

## Effeithiolrwydd ein gwasanaeth

Er mwyn monitro pa mor effeithiol yw ein gwasanaethau, y nod yw llunio dangosyddion perfformiad allweddol sy’n mesur dwy agwedd allweddol ar ein gwaith; effeithlonrwydd ein gwasanaeth, a’i ansawdd trwy foddhad cwsmeriaid.

| | |
|---|---|
| **Targed:** Cofrestru 95% o geisiadau* o fewn 5 diwrnod gwaith iddynt ddod i law. | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o’r achosion |
| **Targed:** Rhoi neu wrthod caniatâd i wneud cais o dan adran 103(2) o’r Mesur, mewn 95% o achosion o’r fath, o fewn 10 diwrnod gwaith i’r cais ddod i law. | Cyflawnwyd y targed mewn 50% o’r achosion |
| **Targed:** Penderfynu 95% o’r ceisiadau hynny sy’n cael eu penderfynu heb orfod cynnal gwrandawiad o fewn 8 wythnos iddynt ddod i law. | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o’r achosion |
| **Targed:** Mewn 95% o achosion, trefnu dyddiad ar gyfer y gwrandawiad sydd o fewn 3 mis i’r dyddiad y daeth y cais i law. | Cyflawnwyd y targed mewn 0% o’r achosion* |
| **Targed:** Rhoi penderfyniad, mewn 95% o achosion lle cynhelir gwrandawiad, o fewn 2 fis i ddiwedd y gwrandawiad. | Cyflawnwyd y targed mewn 100% o’r achosion |

*roedd un achos oedd wedi cael ei drosglwyddo o 2022-2023 ac yn sgil argaeledd cafodd y gwrandawiad ei gynnal ar ôl tri mis o dderbyn y cais. A chafwyd achos arall o fewn y flwyddyn ariannol yma lle nad oedd gwrandawiad wedi cael ei drefnu hyd nes ar ôl tri mis.

# Adran 3 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau Busnes 2024-2025

Mae'n bwysig bod y Tribiwnlys yn datblygu mewn ffordd sy'n ein galluogi i gyflwyno'r gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd y Tribiwnlys yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

Blaenoriaethau Busnes 2024-2025:

- Cynllunio a chynnal hyfforddiant ar gyfer yr aelodau i gyd.
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefan Tribiwnlys y Gymraeg.
- Cyflawni gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Mireinio dulliau'r Tribiwnlys o weithio, ar sail profiad o ddelio gydag achosion, er mwyn sicrhau'r safon uchaf o ystyried a phenderfynu ar achosion.
- I gynnal achosion wyneb yn wyneb ble mae hyn y bosib ond i barhau gyda gwrandawiadau rhithiol os yw hyn yn fanteisiol i gyfiawnder yr achos a'r partïon.
- Parhau i ddatblygu'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno gyda chais gwreiddiol er mwyn gwella effeithiolrwydd yr achosion.

# Adran 4 – Gwariant

Yn yr adran hon, ein:

- Gwariant ar gyfer 2023-2024

## Gwariant ar gyfer 2023-2024

| Cynnwys | Gwariant* |
|---|---|
| Ffioedd, threuliau a hyfforddiant yr aelodau Recriwtio | £22,630 |
| Costau cynnal gwrandawiadau, chyfieithu gwaith achos a lleoliad hyfforddiant | £1,519 |
| **Cyfanswm** | **£24,149** |